YSGOL GYMORTHEDIG WIRFODDOL MADRAS (YR EGLWYS YNG NGHYMRU)

Polisi Derbyniadau

Cyflwyniad

Mae corff llywodraethol **Ysgol Gymorthedig Wirfoddol Madras (Yr Eglwys yng Nghymru)** yn defnyddio'r rheoliadau derbyniadau yn deg ac yn gyfartal ar gyfer pawb sy'n dymuno mynychu'r ysgol hon. Cyflwynodd y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998 fframwaith newydd ar gyfer derbyniadau ysgolion o fis Medi 2000 ymlaen. Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â'r rheoliadau a osodir yn y Ddeddf ac a esbonnir ymhellach yn y Côd Ymarfer Derbyniadau Ysgol statudol a'r Côd Ymarfer Apeliadau statudol.

Nodau ac amcanion

Rydym yn ysgol gynwysedig sy'n croesawu plant o bob cefndir a gallu.

Caiff yr holl geisiadau eu trin yn ôl teilyngdod ac mewn modd sensitif.

Nid yw lefel gallu plentyn neu unrhyw anghenion arbennig sydd ganddo/ganddi yn chwarae unrhyw ran ym mholisi derbyniadau'r ysgol.

Yr unig gyfyngiad yr ydym yn ei osod wrth dderbyn disgyblion yw niferoedd. Os yw nifer y plant sy'n gwneud cais am le yn uwch na'r lleoedd sydd ar gael, rydym yn defnyddio'r weithdrefn a osodir isod er mwyn pennu p'un a dderbynnir plentyn ai peidio.

1. P'un a yw'r plentyn yn byw ym mhlwyf sifil Llannerch Banna.

2. P'un a oes gan y plentyn frawd neu chwaer yn yr ysgol eisoes.

3. P'un a oedd brawd neu chwaer i'r plentyn yn arfer mynychu'r ysgol.

4. P'un a yw'r rhieni yn dymuno anfon eu plant i ysgol sy'n cynnal gwasanaethau addoli corfforedig yn rheolaidd; lle caiff yr addysg ei threiddio gan safonau ffydd ac ymddygiad Cristnogol; a lle ceir cyswllt gweithredol â'r Eglwys.

5. P'un a yw'r ysgol yn cynnig cyfleusterau penodol (nad ydynt ar gael mewn ysgolion eraill gerllaw) sydd eu hangen yn arbennig ar ddisgyblion.

6. P'un a yw'r rhieni'n aelodau o eglwys Anglicanaidd sy'n addoli'n rheolaidd.

Os bydd mwy o geisiadau yn cydymffurfio â'r meini prawf uchod nag sydd o leoedd ar ôl, rhoddir blaenoriaeth i'r rheiny sy'n byw agosaf at yr ysgol.

Sut all rhieni wneud cais am le i'w plentyn yn yr ysgol

Gan fod ein hysgol yn ysgol yr Eglwys yng Nghymru, mae'r Corff Llywodraethol yn pennu'r trefniadau derbyn mewn cytundeb â'r AALl. Felly, Corff Llywodraethol yr ysgol yw ei 'Hawdurdod Derbyniadau'. Mae ffurflenni cais derbyniadau ar gael o'r ysgol. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r rhieni a oes lle yn yr ysgol cyn gynted ag y bydd y ceisiadau wedi'u hystyried i gyd.

YSGOL GYMORTHEDIG WIRFODDOL MADRAS (YR EGLWYS YNG NGHYMRU)

Bydd y plant yn dod i'r ysgol yn rhan-amser ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ar ôl cael eu pen-blwydd yn dair oed ac i addysg lawn amser yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Nid yw addysg feithrin yn ddarpariaeth statudol ac nid oes gan rieni hawl i apelio dan Ddeddf Addysg 1980 os na fyddant yn llwyddo i gael lle. Nid yw lle yn y dosbarth meithrin yn sicrhau y bydd eich plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol.

Apeliadau derbyniadau

Os na fyddwn yn cynnig lle i'ch plentyn yn yr ysgol, bydd hynny oherwydd y byddai'n niweidio addysg plant eraill trwy adael i niferoedd y plant yn yr ysgol gynyddu gormod. Gall rhieni sy'n anfodlon â phenderfyniad y Corff Llywodraethol i beidio â rhoi lle i'w plentyn, apelio. Dylid apelio cyn pen pedwar diwrnod ar ddeg ar ôl derbyn penderfyniad y Corff Llywodraethol a dylid cyflwyno apêl yn ysgrifenedig.

Os yw rhieni'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod mynediad, gallant wneud hynny trwy ysgrifennu at Glerc y Corff Llywodraethol. Bydd panel apeliadau yn cyfarfod wedyn i ystyried holl apeliadau rhieni y maent wedi gwrthod rhoi lle iddynt yn yr ysgol ac sy'n dymuno apelio yn erbyn y penderfyniad. Mae penderfyniad y panel apeliadau yn orfodol i bawb sy'n gysylltiedig. (Ceir manylion y trefniadau apelio yn y Côd Ymarfer ar gyfer Apeliadau Derbyniadau Ysgol, a ddaeth i rym ym Medi 1999.)

Y nifer safonol

Y nifer safonol yw nifer y plant y gall yr ysgol eu derbyn. Y nifer safonol ar gyfer ein hysgol yw **15.** Rydym yn adolygu'r rhif hwn yn gyson a bydd y llywodraethwyr yn gwneud cais i newid y rhif os bydd amgylchiadau'n caniatáu.

Maint dosbarthiadau babanod

Rydym yn addysgu plant oedran babanod (pump i saith oed) mewn dosbarthiadau sy'n cynnwys uchafswm o 30 o blant.

Adolygiad

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol gyda'r Awdurdod Derbyniadau yng ngoleuni unrhyw amgylchiadau sydd wedi newid yn ein hysgol neu'r ardal leol.